



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

**Birribi
Brynteg
Newton Cross
Hwlfordd
SA62 5HT**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

® Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2018

Cyd-destun

Mae addysg Birribi wedi cofrestru fel ysgol arbennig annibynnol. Mae wedi'i leoli ym mhentref Cas-lai, ar gyrion Hwlfordd. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer hyd at ddau o blant rhwng 8 a 18 oed sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae'n gweithredu mewn ystafell ddosbarth sydd wedi'i hatodi at un o ddau o gartrefi plant y cwmni. Agorodd yr ysgol yn Ebrill 2016.

Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn i ddisgyblion sydd â diagnosis o anhwylder yn y sbectrwm awtistig (ASD) ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae un disgybl ar gofrestr yr ysgol.

Cafodd y pennaeth ei benodi ym Medi 2017.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu tawel a chroesawgar i ddisgyblion a chanddynt ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod addas o brofiadau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyflawni cymwysterau cydnabyddedig mewn Saesneg a mathemateg, ac i ddatblygu medrau bywyd pwysig fel coginio a thrin arian. Ceir trefniadau buddiol i ddisgyblion fynychu lleoliadau profiad gwaith a chysiau blasu mewn darparwr hyfforddiant lleol.

Mae cysylltiadau buddiol gan yr ysgol gydag ystod o asiantaethau arbenigol, fel gwasanaethau cwnsela a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r cysylltiadau gyda swyddog cymorth cymunedol yr heddlu lleol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y modd y gall disgyblion gadw eu hunain yn ddiogel yn y gymuned ac ar-lein.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ynglŷn â gyrfaeod ac opsiynau addysg bellach i gynorthwyo disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u dyfodol.

Mae'r ystafell ddosbarth yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda gydag arddangosiadau lliwgar sy'n helpu darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Er mai lle cyfyngedig iawn sydd gan yr ysgol yn yr awyr agored, mae'n gwneud defnydd da o gyfleusterau lleol fel y ganolfan hamdden a'r pwll nofio ar gyfer gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau hamdden.

Meysydd i'w datblygu

Mae cynlluniau gwaith addas gan yr ysgol i gynorthwyo â chyflwyno cyrsiau penodol fel TGAU Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r cynllunio a chynlluniau gwaith ar gyfer pynciau eraill, fel gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn cynnal asesiadau risg ar gyfer pob ymweliad addysgol oddi ar y safle. Er bod y rhain yn nodi peryglon sylweddol a'r camau angenrheidiol i leihau'r risg, nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion yn aml, ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da ag anghenion y disgyblion.

Mae'r pennaeth newydd wedi adolygu llawer o'r polisïau ysgol ers iddo gael ei benodi ym Medi 2017. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddogfennau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn adlewyrchu arfer gyfredol yn yr ysgol yn ddigon da.

Mae'r pennaeth yn dechrau rhoi systemau yn eu lle i arfarnu ychydig o agweddau ar waith yr ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi trosolwg defnyddiol o brif feysydd yr ysgol i'w gwella, ac mae'n cysylltu'n addas â'r cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol wrth arfarnu safonau disgyblion neu ansawdd y ddarpariaeth. Er enghraifft, nid yw'n defnyddio gwybodaeth o asesiadau gwaelodlin ac asesiadau canol tymor i arfarnu cynnydd disgyblion o'u pwynt mynediad neu yn erbyn targedau unigol.

Mae angen i'r ysgol wneud cais am newid sylweddol i'r categori angen y mae wedi'i chofrestru ar ei gyfer i gynnwys disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Argymhellion

- A1 Parhau i ddatblygu cynlluniau gwaith priodol ar gyfer pynciau ar draws y cwricwlwm
- A2 Adolygu asesiadau risg oddi ar y safle i sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a manwl am yr ymweliad
- A3 Diweddarau'r holl bolisïau yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn bolisïau sy'n benodol i'r ysgol
- A4 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ac yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a chynnydd disgyblion
- A5 Gofyn am gyngor gan Lywodraeth Cymru ynghylch derbyn plant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

Standard 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol	Birribi
Rhif yr ysgol	6686020
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	05/02/2018
Perchennog	Birribi
Staff	1 x athro arweiniol, 1 cynorthwydd addysgu
Nifer y disgyblion	1
Darpariaeth	Amser tymor yn unig ar gyfer disgyblion preswyl yng nghartrefi plant y cwmni
Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer	Anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, anghenion dysgu penodol ac anhwylderau datblygiad niwrolegol
Arolygiad Adran 163 diwethaf	Dd/b
Ymweliad monitro blynyddol diwethaf	02/02/2017
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	